Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL**.

NODER – NID YW'R CYFARFOD HWN YN AGORED I'R CYHOEDD.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams
**Swyddog Monitro**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **CLIMATE CHANGE AND ECOLOGICAL EMERGENCY WORKING GROUP** are attached below.

PLEASE NOTE – THIS MEETING IS NOT OPEN TO THE PUBLIC.

Yours faithfully,

Gary Williams
**Monitoring Officer**

**AGENDA**

**1** **RHAGLEN** (Tudalennau 3 - 14)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# RHAGLEN

## CYFARFOD: GWEITHGOR NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG ECOLEGOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 25 Gorffennaf 2023 |
| **Amser** | 14.00-16.00 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Cadeirydd** | Y Cyng. Barry Mellor |
| **Hwylusydd** | Helen Vaughan-Evans (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd) a Gary Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes ac Uwch Berchennog Cyfrifol Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol) |
| **Ymddiheuriadau** | Dim |

| | |
|---|---|
| **1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau** (Cadeirydd) | (10 munud) |
| **2. Penodi Is-Gadeirydd y Gweithgor** (Cadeirydd) | (5 munud) |
| **3. Cytuno ar gylch gorchwyl** (Cadeirydd) | (15 munud) |
| **4. Rhaglen gwaith i'r dyfodol a thrafodaeth i drefnu cyfarfodydd** (Cadeirydd) | (20 munud) |
| **5. Cofnodion/ camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a materion yn codi** (Cadeirydd) | (30 munud) |
| **6. Perfformiad Cyngor Ecolegol Cadarnhaol a Di-Garbon Net 2022/23** (Helen Vaughan-Evans) | (20 munud) |
| **7. Prif negeseuon o'r arolwg cyhoeddus er mwyn adolygu ac adnewyddu'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol** (Helen Vaughan-Evans) | (20 munud) |
| **8. Unrhyw fater arall** | (10 munud) |

**Aelodaeth – Cynghorwyr:**

Y Cyng. Arwel Roberts
Y Cyng. Barry Mellor (Cadeirydd)
Y Cyng. Bobby Feeley
Y Cyng. Delyth Jones
Y Cyng. James Elson
Y Cyng. Jon Harland
Y Cyng. Martyn Hogg
Y Cyng. Michelle Blakeley-Walker
Y Cyng. Paul Keddie
Y Cyng. Peter Scott

# COFNODION

## CYFARFOD: GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 1 Chwefror 2022 |
| **Amser** | 14.00-16.00 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Yn Bresennol** | Y Cynghorydd Brian Jones (BJ), y Cynghorydd Graham Timms (GT), y Cynghorydd Tony Thomas (TT), y Cynghorydd Bobby Feeley (BF), y Cynghorydd Gwyneth Kensler (GK), y Cynghorydd Arwel Roberts (AR) |
| **Ymddiheuriadau** | y Cynghorydd Barry Mellor (BM), y Cynghorydd Joe Welch (JW), y Cynghorydd Martyn Holland, Nicola Kneale |
| **Hefyd yn Bresennol** | Swyddogion cefnogi: Heidi Barton-Price (HBP), Andrew Cutts (AC), Jane Hodgson (JH), Tom Johnstone (TJ), Alan Smith (AS), Howard Sutcliffe (HS), Joel Walley (JW), Liz Wilcox-Jones (LWJ), Tony Ward (TW)<br><br>Cynghorwyr yn Arsylwi: Y Cynghorydd Alan James (AJ), y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (MLD), y Cynghorydd Emrys Wynne (EW) |

### 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd, GT, bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

Croesawodd GT, Andrew Cutts fel Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd, dros gyfnod mamolaeth Helen Vaughan-Evans.

## 2. Cofnodion a'r camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf yn gywir.

Cafodd camau gweithredu'r cyfarfod diwethaf ar 16 Tachwedd 2021 eu hadolygu a darparwyd diweddariad gan AC. Gweler y tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r hyn sydd wedi'i wneud.

| CAM GWEITHREDU | Y WYBODAETH DDIWEDDARAF |
|---|---|
| **HVE** - trafod a cheisio cyngor gan Paul Mead ar sut i gefnogi Cynghorwyr ynghylch penderfyniadau cynllunio sydd fel pe baent yn gwrthdaro â'r rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol | **AR Y GWEILL**<br><br>AC i drafod ymhellach â Paul Mead ac Angela Loftus er mwyn datblygu hyfforddiant ôl-etholiad ar gyfer Cynghorwyr |
| **AS** - trafod gyda Geraint y cyfle i ymgysylltu Llywodraethwyr â gwaith/targedau Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor | **AR Y GWEILL** |
| **HVE** - cynnwys cyflwyniad Andrew gyda'r cofnodion | **WEDI'I GWBLHAU** |
| **AC** - anfon y cyflwyniad i'w gyfieithu i'r Gymraeg ac anfon copi Cymraeg at bawb unwaith y bydd ar gael | **WEDI'I GWBLHAU** |
| **TW** - gwneud darn o waith i ddadansoddi'r gost ar gyfer gwneud mwy o waith rheoli chwyn mewn modd amgylcheddol gyfeillgar ar draws y sir. | **AR Y GWEILL** |
| **JW** - trefnu cyfarfod ag Andy a chynrychiolwyr perthnasol o'r Gwasanaethau Stryd i drafod a phennu a oes angen defnyddio plaladdwyr ym mhob achos a wneir ar hyn o bryd. | **AR Y GWEILL**<br><br>Cafodd JW gyfarfod â swyddogion i drafod ar 13 Ionawr. Trefnwyd cyfarfod arall ar gyfer 2 Mawrth. |

Roedd y drafodaeth ynghylch y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf yn cynnwys:

- GT - yn dilyn yr adroddiad gan Archwilio Cymru a'r eitemau yn y wasg, diolch i'r ddau Aelod Arweiniol a'r swyddogion am eu gwaith ar y rhaglen
- BJ - cynigiodd air o rybudd - ni allwn orffwys ar ein bri a'n bod ond cystal â'r archwiliad diwethaf. I ba gyfeiriad fydd y rhaglen yn mynd gan y cyngor nesaf?
- GK - mewn perthynas ag eitemau yn y wasg o ran dadansoddiad o gynlluniau gweithredu hinsawdd cynghorau (https://councilclimatescorecards.uk/) mae angen i ni ystyried ein safle ar draws y DU, nid ar gyfer Cymru'n unig. Er enghraifft, fe sgoriodd Cyngor Sir Ddinbych fel yr ail uchaf yng Nghymru, ond mae'n dymuno bod yn uwch ar restr y DU.
- GT – mae newid cyfansoddiad yn bwysig o ran dyfodol y gwaith hwn.

**CAMAU GWEITHREDU:**

- AC – anfon fersiwn Gymraeg o'r cyflwyniad a roddodd mewn cyfarfod blaenorol ar glefyd coed ynn at Awel Roberts

## 3. Materion sy'n codi

Ni drafodwyd unrhyw faterion sy'n codi.

## 4. Adolygu'r Cynllun Corfforaethol drafft cyn iddo fynd i gyfarfod y Cyngor

Rhoddodd AS ddiweddariad i'r grŵp. Mae cyfres o gyfleoedd y credir y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â hwy. Yn hytrach na phennu un amcan neu flaenoriaeth newid hinsawdd, mae'r cynllun yn cynnwys materion a themâu. Mae'r cynllun ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad. Mae'r rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol, materion gwyrdd a charbon oll wedi'u gwau drwyddi draw.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych gynlluniau uchelgeisiol ynghylch newid hinsawdd.  Yr her fydd darparu ein cynlluniau heb golli momentwm.  Mae'r Rhaglen wedi ceisio integreiddio newid hinsawdd i gynlluniau gwaith meysydd gwasanaeth.  Bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu i'r Cyngor newydd (ar ôl yr etholiadau).  Bydd swyddogion yn gweithio ag Aelodau newydd i benderfynu beth ddylai gael ei gynnwys yn y cynllun corfforaethol, pa weithgareddau fydd yn sail iddo a sut i'w symud ymlaen.

Cafwyd trafodaeth am y rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol a sut mae'n ymddangos yn y cynllun- ar wahân neu wedi'i integreiddio.

Mae AR yn awyddus i gynnwys ysgolion uwchradd yn y rhaglen a chanolbwyntio ar y genhedlaeth iau mewn perthynas â lleihau carbon a meithrin ffyrdd gwell o fyw.  Ar bwnc arall- nid yw pobl yn cydweithio a rhannu e.e. mae pobl yn dal i aros am warchodfa natur yn Rhuddlan.  Mae'r tîm rheoli yn disgwyl i rentu cae arall er mwyn gwella effeithlonrwydd carbon, mae rhan arall o Gyngor Sir Ddinbych yn gweld problemau ag ef; yn dal i aros am benderfyniad gan nad yw pawb yn cydweld.

Codwyd y syniad o awgrymu penderfyniad i gael rôl fel rhan o'r Cabinet o ran yr argyfwng newid hinsawdd a newid ecolegol yn y Cyngor nesaf - gan y grŵp hwn a'r Cyngor Llawn.  Mae cael portffolio penodol yn dda ar gyfer cyd-drefnu a chydlyniant.  Nodwyd hyn mewn manylder yn eitem 6 y rhaglen:  Cymeradwyo adroddiad drafft i'r Cyngor Sir ar y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a Chyflawni Blwyddyn 1 y Strategaeth.

## 5. Cynllun ar gyfer ymsefydlu Aelodau ar ôl mis Mai 2022

Cyflwynodd Liz Wilcox-Jones a Jane Hodgson (Rheolwyr Prosiect Newid Hinsawdd) gynllun amlinelol drafft ar gyfer ymsefydlu Aelodau'r Cyngor newydd ar ôl etholiadau mis Mai 2022 (gweler y Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol - papur polisi, Diweddariad ar ddarpariaeth Blwyddyn 1 (Atodiad 6) ym mhapurau'r cyfarfod).  Gofynnwyd am adborth ac awgrymiadau gan y grŵp ac maent wedi eu rhestru isod.

<u>Taflen wybodaeth</u>

- Y sefyllfa o fewn y cyngor
    - cynnwys crynodeb o'r adroddiad diwedd blwyddyn
    - cynnwys cymhariaeth rhwng data'r flwyddyn flaenorol
    - Defnyddiol gwybod am y sefyllfa ar ddiwrnod yr etholiad e.e. faint o adeiladau sy'n ecogyfeillgar, allyriadau $CO_2$ Cyngor Sir Ddinbych
    - Rhestr o brosiectau e.e. cynnwys y prosiect cerbydau/tacsis trydan

- Cafwyd trafodaeth ynghylch neilltuo mentor Grŵp Ardal Aelodau pwrpasol ar gyfer newid hinsawdd a newid ecolegol.
    - rhywun ar gyfer pob Grŵp Ardal Aelodau sydd eisoes yn ymwneud â phrif feysydd y strategaeth newid hinsawdd, beth sy'n digwydd ar hyn o bryd a beth sydd ar y gweill.
    - adborth i aelodau a chynnwys y rhaglen newid hinsawdd ym mhob Grŵp Ardal Aelodau fel eitem sefydlog ar y rhaglen.
    - y swyddogion i ddarparu gwybodaeth lefel uchel i'r mentor Grŵp Ardal Aelodau.
    - NB y syniad yw peidio â chael aelod o bob Grŵp Ardal Aelodau ar y pwyllgor newid hinsawdd.  Gallai unigolion o'r gweithgor gwleidyddol fod yn aelod o'r Grŵp Ardal Aelodau, neu gallai mentoriaid Grŵp Ardal Aelodau fynychu'r gweithgor gwleidyddol fel arsylwyr.  Cadw'r Gweithgor wedi'i sefydlu fel y mae gyda chynrychiolwyr o'r grwpiau gwleidyddol (nid ar gyfer yr ardaloedd daearyddol) fel bod y trafodaethau'n cael eu hadrodd yn ôl i'w grwpiau gwleidyddol eu hunain.
- Cyfle i godi'r elfen newid ecolegol yn y rhaglen- sut i wella'r neges?

<u>Sioeau teithiol</u>

- Cefnogaeth gyffredinol o ran presenoldeb swyddogion mewn sioeau teithiol

- Defnyddiol cael presenoldeb amlwg swyddogion er mwyn galluogi aelodau i'w cyfarfod a chyfnewid manylion cyswllt, rhoi wyneb i enwau, dod i adnabod eu personoliaethau.
- A all pob swyddog gael cerdyn? A fydd y sesiynau cyflwyno ac ati yn cael eu cynnal yn bersonol yn yr un lle?

Cwrs Hyfforddi

- Roedd pawb yn argymell yr hyfforddiant, roedd yn ysbrydoledig ac yn llawn gwybodaeth
- Byddai'n fanteisiol ei ddefnyddio mewn ysgolion

Fideos

- Byddai fideos byr yn cefnogi hyfforddiant a dylanwadu ar Aelodau newydd e.e. ehangu sgyrsiau blwch offer. Mae modd eu defnyddio gyda Grwpiau Ardal Aelodau er enghraifft, i gadw'r ffocws. Sicrhau bod ysgolion yn gwybod am y fideos, fel eu bod yn eu defnyddio mewn gwersi ac fel ffynhonnell wybodaeth i fyfyrwyr am yr hyn sy'n digwydd o ran newid hinsawdd a newid ecolegol yn eu hardal
- Penodol ar gyfer ffrwd waith e.e. Cludiant, Gwastraff, Adeiladau ac ati

Mentora/cyfeillio

- Y farn gyffredinol yw na i fentora/cyfeillio.
- Gellid cael rhywfaint o aelodau o bleidiau i annog eraill i sicrhau eu bod nhw'n ystyried y rhaglen.

Ymgysylltiad arall

- Ysgolion - pwysig eu bod nhw'n gweithio â ni, yn enwedig ysgolion uwchradd. Sicrhau bod gwybodaeth ar gael ynghylch yr hyn mae ysgolion yn ei wneud a'u cynlluniau. Fyddai modd iGynghorydd newydd fynd i gyfarfodydd cyngor ysgol mewn ysgolion i glywed eu barn ar newid hinsawdd a newid ecolegol?
- Ymweliadau safle - awgrymodd Howard y canlynol- Loggerheads, Moel Famau, Gwlyptir Prestatyn, Llwybr Prestatyn Dyserth i'r Gogledd, Plas Newydd, Gwenffrwd yn y de.

## 6. Cymeradwyo adroddiad drafft i'r Cyngor Sir ar y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a Chyflawni Blwyddyn 1 y Strategaeth

Arweiniodd AC y grŵp trwy'r papur. Bydd BJ a TT yn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn ar 22 Chwefror 2022.

- Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn yn ystod blwyddyn 1 o gyflawni'r Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.
- Cytuno mewn egwyddor i barhau â'r Gweithgor Gwleidyddol Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol yn y Cyngor newydd (2022-2027).
- Rhoi adborth ar y cynllun/ dull gweithredu drafft ar gyfer ymsefydlu Aelodau newydd y Cyngor ar ôl etholiadau mis Mai 2022 ar y rhaglen hon.

Cafwyd trafodaeth ar yr hyn a olygir wrth rôl ddynodedig yn y cabinet a'r gwahaniaeth rhyngddi a rolau'r ddau Aelod Arweiniol presennol. Byddai arweinydd cabinet unigol newid hinsawdd a newid ecolegol yn Aelod sy'n canolbwyntio ar newid hinsawdd a newid ecolegol ac a fyddai'n rhannu'r neges o fewn a'r tu hwnt i Gyngor Sir Ddinbych. Wrth integreiddio newid hinsawdd a newid ecolegol ar draws holl waith Cyngor Sir Ddinbych, mae angen arweinydd a phwynt pwrpasol, yn ogystal â rhoi sylw i newid hinsawdd a newid ecolegol a'i wneud yn flaenoriaeth uchel yn y Cyngor newydd.

Holodd BF a oedd modd cael Cyfeillion i'r Gweithgor Gwleidyddol hwn.

Awgrymodd BJ i'r grŵp wahodd siaradwyr fel opsiwn.

Roedd y grŵp yn hapus gyda'r adroddiad drafft a gyflwynwyd ac awgrymwyd y diwygiadau canlynol, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn:

<u>Prif destun yr adroddiad</u>:

- arweinydd cabinet unigol Newid Hinsawdd aNewid Ecolegol - mae argymhelliad cysylltiol ar ei gyfer
- Awgrymu cael mentor newid hinsawdd a newid ecolegol ar gyfer pob Grŵp Ardal Aelodau - dim argymhelliad ar gyfer hyn, dim ond yn ysgrifenedig

Fel argymhelliad: awgrymu penderfyniad i gael rôl fel rhan o'r Cabinet o ran yr argyfwng newid hinsawdd a newid ecolegol yn y Cyngor nesaf - gan y grŵp hwn a'r cyngor llawn.

Awgrymwyd ychwanegu aelod arweiniol unigol yn y cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol hefyd yn Atodiad 7 - risgiau.

**CAMAU GWEITHREDU:**

- AC - diweddaru prif destun adroddiad y papur ac ychwanegu'r argymhelliad arfaethedig ar gyfer cael aelod arweiniol unigol yn y cabinet.

## 7. Cynllun Gwaith i'r Dyfodol ac Unrhyw fater arall

Aeth AC â'r grŵp trwy eitemau posib ar gyfer y rhaglen yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol os bydd yn parhau yn dilyn etholiadau mis Mai.

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitemau Posib ar y Rhaglen |
|---|---|
| I'w gadarnhau | • Cyflwyniad i'r Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol<br>• Trefnu ymweliadau safle â safleoedd y prosiect e.e. ardal o flodau gwyllt, prosiect ysgol, creu coetir<br>• Myfyrio a dysgu o ddarpariaeth y rhaglen yn ystod y Cyngor blaenorol<br>• Ystyried y rhaglen a'r blaenoriaethau ar gyfer 22/23 |

Nid oes cyfarfodydd wedi'u trefnu.  Bydd cyfarfodydd pellach yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor newydd.

Diolchodd y Cadeirydd (GT) i:

- bob swyddog yn yr holl rolau amrywiol ac am eu cymorth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn llawn gwybodaeth ac wedi rhoi cyfle i'r Cynghorwyr i ddarparu adborth i'r grŵp. Roedd GT yn falch gyda'r canlyniadau ac yn gobeithio y bydd y Cyngor newydd yn parhau yn yr un modd.
- ar ymddeoliad AS, dweud hwyl fawr a diolch iddo am ei waith ar y Gweithgor hwn, y rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol ac am ddatblygu'r Rhaglen.
- Adran TW ac ardal HS

yr Aelodau Arweiniol oedd â'r cyfrifoldeb.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag